



Nodion Seion

Pasg 2018

Gair neu ddau gan y Gweinidog

Y Pwyllgor Bugeiliol

Mae'r Pwyllgor Bugeiliol wedi ei sefydlu ac wedi cyfarfod nifer o weithiau eisoes. Yr ydym yn ddiolchgar iawn fel eglwys i Mr. Leon Gibson am ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn gadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol ac i Miss Rhiannon Davies am ymgymryd â swydd cofnodydd. Gwerthfawrogir derbyn adroddiad gan Leon yn oedfeun y Sul yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Bugeiliol. Mae angen i bawb ohonom weddio ar i Dduw ein Tad gymryd meddiant llawn o'r pwyllgor gan roi i'r holl aelodau arweiniad yr Ysbryd Glân fel bod y pwyllgor pwysig hwn yn medru cyflawni ei waith yn llwyddiannus er sicrhau parhad Gweinidogaeth y Gair yn eglwys Seion.

Y Trysorydd

Dymunwn ddiolch o lwyrfryd calon i Dr Endaf Edwards am ei wasanaeth fel Trysorydd yr eglwys dros y tair blynedd ddiwethaf (2015-2017). Anodd mesur ein dyled iddo a diolchaf yn bersonol iddo am ei hynawsedd a'i ofal. Gwerthfawrogwn barodrwydd Mr Malcolm Davies i ymgymryd â gwaith y Trysorydd - mawr yw ein diolch iddo.

Organ Newydd

Mae'r organ newydd bellach yn ei lle. Diolchwn i aelodau Pwyllgor yr Organ am eu gwaith ac yn arbennig i Mr Lewis Gruffudd sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldebau niferus oedd yn gysylltiedig â phrynu'r organ a'i gosod yn ei lle yn y capel. Lewis, hefyd, trwy gasglu gwybodaeth fanwl a llenwi ffurflenni, a sicrhodd gymhorthdal o £4,145.00 gan Gyngor Ceredigion tuag at gost yr organ.

Myfyrdod

Fy nyhead dwfn a'm gweddi ar hyd y blynyddoedd yw bod dynion a merched o dan weinidogaeth y Gair yn Seion yn dod i weld gogoniant person yr Arglwydd Iesu Grist yn fwy clir o Sul i Sul ac yn medru dweud gydag argyhoeddiad am yr Arglwydd Iesu Grist megis ag y dywedodd pobl Sychar, "Yr ydym wedi ei glywed drosom ein hunain, ac fe wyddom mai hwn yn wir yw Gwaredwr y byd" (Ioan 4:42).

Fy ngweddi, hefyd, yw y gwêl Duw yn dda yn ei ras a'i gariad eich tywys a'ch cyfarwyddo gan yr Ysbryd Glân i alw gweinidog a fydd wrth bregethu yn dyrchafu'r Arglwydd Iesu Grist ac yn dwyn cynulleidfa Seion i ryfeddu at ei berson, ei gariad a'i ras. Gydag argyhoeddiad dwfn dywedodd William Williams am ein Gwaredwr annwyl,

*Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,
'does debyg iddo fe.*

Ar drothwy'r Pasg gadewch i ni ystyried ei atgyfodiad. Yng ngoleuni ymchwil diweddar gan Bill Hybels gwelir bod pedwar arweinydd yn sefyll allan ym myd crefydd: Confucius, Bwdha, Mohammed, a Iesu. Bu farw Confucius, Bwdha a Mohammed. Mae'r tri yma yn eu beddau ac mae modd ymweld â'u beddau. Yr arwydd ar ddrysau eu beddau yw: Meddianedig (Occupied). Mae ychydig o broblem gyda Bwdha. Cafodd hwnnw ei amlogi ac mae yna ddarnau o esgyrn a dannedd na losgwyd wedi eu gosod mewn gwahanol gysegfannau.

Medrwn ymweld â bedd y tu allan i Jerwsalem lle gosodwyd corff Iesu i orwedd am dri diwrnod wedi iddo gael ei groeshoelio. Mae miliynau o bobl wedi ymweld â'r bedd, a

minnau yn eu plith. Yr ydym yn ymweld â'r bedd nid i anrhydeddu dyn a fu farw ond i sefyll yn dawel mewn parchedig ofn, rhyfeddod a syndod wyneb yn wyneb â'r ffaith fod bedd y Gwaredwr yn wag: Heb ei Meddiannu (Not Occupied). Yn wahanol i Confucius, Bwdha a Mohammed dywedodd Iesu, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth" (Ioan 11:25,26). Profwyd y gosodiad hwn pan gyfododd Duw ei Fab o feirw ar fore'r Trydydd Dydd. Ymddangosodd y Crist byw yn ei gorff atgyfodedig i'w ddisgyblion, i aelodau o'i deulu, i ffrindiau ac i bum cant o bobl gyda'i gilydd. Bu'n bwyta gyda hwy, yn siarad â hwy, yn eu dysgu ac yn rhannu cymdeithas â hwy am ddeugain diwrnod hyd ei Esgyniad. Mae hynny yn ei osod ar wahân i bob arweinydd crefyddol sydd wedi byw erioed ac a fydd fyw byth. Oherwydd y ffaith hon mae cynulleidfaoedd bychain ac anferth ar draws y byd yn dod ynghyd bob Sul nid i alaru fel pobl nad oes ganddynt obaith ond i addoli a llawenhau – i ddathlu'r atgyfodiad.

Ceir argraffiad newydd eto o lyfr Frank Morison, Who Moved the Stone? Mae'r llyfr hwnnw yn glasur. Bwriad Morison pan aeth ati i ysgrifennu ei lyfr oedd profi unwaith ac am byth mai stori ffug oedd stori'r Bedd Gwag. Ond wedi cyflawni ei holl waith ymchwil ac wrth ysgrifennu ei lyfr daeth i gydnabod heb unrhyw amheuaeth bod yr Arglwydd Iesu wedi atgyfodi o feirw – Duw symudodd y maen o enau'r bedd. Mae Morison yn terfynu ei lyfr trwy ddyfynnu cymal o Gredo'r Apostolion: "Y trydydd dydd y cyfododd o feirw." Digwyddodd rhywbeth syfrdanol – rhywbeth newidiodd y byd ar fore'r Pasg.

*Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,
'does debyg iddo fe – Y Crist Byw*

Ble mae ef yn awr? Mae ef gyda ni drwy'r Ysbryd Glân ac mae'n eiriol trosom ar ddeheulaw Duw.

*Esgyn a wnaeth i entrych nef
i eiriol dros y gwan;
fe sugna f'enaid innau'n lân
i'w fynwes yn y man.*

Mae'n ein cynrychioli ni gerbron Duw. Mae'r Duw sanctaidd yn ein gweld ni wedi ein gwisgo â glendid Iesu Grist. Cofleidiodd y Gwaredwr y pechadur ar y Groes ac mae'r Gwaredwr hwnnw sydd yn eiriol trosom yn dal i gofleidio'r pechadur gerbron Duw – yn eiriol arno i weld y pechadur yn lân heb greithiau ei bechod am ei fod ef wedi cymryd ei bechod arno'i hun ar y groes. Pa bechadur? Chi a fi, bob yn un ac yn un, dim ond i ni gydnabod ein hangen am Iesu fel ein Gwaredwr a derbyn ei aberth drosom ar y groes.

Y mae i'r crediniwr gymundeb tragwyddol â'r Gwaredwr.

*Ac yna caf fod gydag ef
pan êl y byd ar dân,
ac edrych yn ei hyfryd wedd,
gan' harddach nag o'r blaen.*

Mae'r Arglwydd Iesu Grist ben ac ysgwydd yn uwch na phawb arall. Ef yw'r unig un sy'n diwallu ein newyn am berthynas â'n Creawdwr. Ynddo ef y mae'r cariad a'r maddeuant sydd ei angen ar bob pechadur. Ef yw'r un sy'n ein rhyddhau o falchder a hunanoldeb ac sy'n ein galluogi i fwynhau bywyd cyflawn sy'n llawn pwrpas ac ystyr. Ef sy'n ein galluogi i weld Duw a'i garu a charu'n cyd-ddyn yn ei nerth. Ef sy'n ein paratoi ni i wynebu'r gelyn y mae pawb yn ei ofni: marwolaeth. Pwy arall sy'n mynd i faddau'n pechodau? Pwy arall sy'n mynd i'n cyflwyno ni'n lân gerbron Duw? Pwy sy'n arweinydd diogel i ni? Bu fyw bywyd dibechod, bu farw ar y groes dros ein pechodau. Atgyfododd Duw ef ar fore'r Trydydd Dydd ac mae'n eiriol trosom ar ei ddeheulaw.

*Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,
'does debyg iddo fe.*

Pasg llawen i chi gyd,
Andrew Lenny

Aelodau a hunodd

Mr Elfed Lewis (13:01:18)

Miss Mary Anne Roberts (13:01:18)

“Os byw yr ydym, i’r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i’r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo’r Arglwydd ydym” (Rhufeiniaid 14:8).

Cydymdeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliad

Mrs Eiry Evans (modryb), Miss Mair Thomas (cefnder), Mrs Lynda Rees-Davies (cyfnither), Mr William Price Jones (cyfnither), Mrs Lynne Lewis (gŵr), Mrs Elin Williams (modryb), Mrs Edwina Evans (chwaer), Mr Glyn Lewis Jones (cefnder), Mrs Elisabeth James (modryb).

Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth

Mrs Gwen Gruffudd, Mrs Ann Griffiths, Mr Eifion Davies, Yr Athro Eleri Pryse, Mrs Eirwen Lewis, Mr Evan Lewis, Miss Mair Thomas, Mrs Joyce Evans, Mrs Gwyneth Jones, Yr Athro Ieuan Gwynedd Jones, Mrs Olwen Howells, Y Parchg. Wynne Davies, Mrs Eileen Price Jones, Mr Emyr James.

Llongyfarchiadau

i Mr Evan a Mrs Eirwen Lewis ar ddathlu saith deg o flynyddoedd o fywyd priodasol.

Pregethwy

8 Ebrill - Y Parchg. Guto Prys ap Gwynfor
15 Ebrill

27 Mai - Y Parchg. Jill-Hailey Harries

17 Mehefin - Y Parchg. Beti-Wyn James

Derbyn Aelodau Newydd

Llawenydd mawr i ni yn yr oedfa ar fore Sul, 7 Ionawr, 2018 oedd derbyn Elinor Mari Thomas, un o’n pobl ifanc ffyddlon, yn gyflawn aelod o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist yn Seion. Llawenydd mawr i ni hefyd oedd croesawu a derbyn Hywel ac Alaw Griffiths trwy lythyr yn aelodau yn Seion. Braff iawn wyf cael cwmni eu plant Lleucu a Morgan gyda’i rhieni yn yr oedfaon a’r Ysgol Sul.

Bedydd

Yn yr oedfa ar fore Sul, 26 Tachwedd, 2017 bedyddiwyd Alys Seren, merch Meilyr a Teleri Gruffudd.



Cyfeiriad

Dr Hywel Griffiths a Mrs Alaw Griffiths,
50, Ffordd Brynglas, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3QR.

Rota’r Cymun

Mae angen gwirfoddolwyr sy’n fodlon cael eu cynnwys ar y rota i baratoi’r Cymun os gwelwch yn dda (ar gyfer un Sul y flwyddyn yn unig fydd hyn). Os allwch chi helpu, a fydddech cystal â rhoi gwybod i Gwenda James (Cydlynnydd Rota’r Cymun). Llawer o ddiolch (gwenda_llan@yahoo.co.uk).

Trefn Gwasanaethau’r Cymun

Sul y Pasg (bore), Mai 6 (hwyr), Mehefin 3 (hwyr)

Dathlu'r Nadolig yn Seion

Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul



“Newyddion Da i Bawb – nid newyddion ffug” oedd thema oedfa Nadolig yr Ysgol Sul. Roedd y plant a’r ieuencid ar eu gorau yn canu ac yn actio wrth fynd â ni ar daith i Fethlehem i ryfeddu at hanes y Nadolig cyntaf: “Daeth Duwdod mewn baban i’n byd”. Bu’r ieuencid yn canu offerynnau a chawsom ddwy sgets ddoniol a thrawiadol - un yn portreadu dau o’r doethion wedi eu gwisgo fel gwyddonwyr a’r llall yn portreadu dwy seren go anghyffredin yn cyfarfod â Seren Bethlehem. Canwyd “Emyn y Ffoadur” gan ieuencid a mamau yr Ysgol Sul wrth i luniau eithriadol o ddwysingol ymddangos ar y sgrin – lluniau dychmygol o Mair a Joseff yn ffoi i’r Aiffet ynghyd â lluniau o ffoaduriaid yn eu tralod yn ein byd ni heddiw.

Tanlinellwyd bod Duw wedi dangos ei gariad rhyfeddol tuag atom wrth ddod atom yn yr Arglwydd Iesu Grist a bod Crist y Gwardwr yn ewyllysio gweithio ynom a thrwom i rannu ei gariad yn y byd. Gwnaethom gasgliad arbennig i gefnogi’r Banc Bwyd lleol ynghyd ag Elusen Open Doors. Mae Open Doors yn ariannu prosiectau mewn hanner cant o wledydd y byd, gan gynnwys Iraq, Yemen, Myanmar a Bangladesh, lle mae dynion, merched a phlant yn dioddef erledigaeth a chreulondeb dychrynlyd oherwydd eu Ffydd. Cyfanswm y casgliad oedd £347.21.

Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb fwynhau Parti Nadolig yr Ysgol Sul.



Parti Nadolig yr Ysgol Sul

Oedfa Deuluol Bore Nadolig

Braf iawn oedd ymgynnull yn Deulu'r Ffydd ar fore dydd Nadolig i ddathlu genedigaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Roedd rhan amlwg gan yr ieuentid yn yr oedfa. Darllenwyd o'r Ysgrhythur gan Tomos Gruffudd Roberts Young, cawsom ddatganiad ar y piano gan Gruffudd Huw ynghyd ag unawd gan Sophie Rudge a chân mewn tri llais gan Efa, Ifan ac Elinor Thomas. Cafodd y plant hwyl wrth ddangos eu hanrhegion i'r gweinidog cyn iddo yntau rannu neges am y Gwardwr sy'n ein caru a'n

bendithio â'i faddeuant a'i gwmni. Esboniodd y modd y gellir defnyddio'r cracer Nadolig i gofio a deall gwir ystyr Gŵyl y Geni.

Canu carolau o gylch Ysbyty Bronglais

Braf iawn eleni eto oedd ymuno â Christnogion o wahanol eglwysi'r dref i ganu carolau o gylch wardiau'r ysbyty. Caiff hyn ei werthfawrogi'n fawr gan gleifion a'u teuluoedd ynghyd â'r staff.

Oedfa Nadolig y Myfyrwyr

Braint fawr i ni yn eglwys Seion ar hyd y blynyddoedd yw cael cwmni myfyrwyr yn cydaddoli â ni yn oedfeun y Sul ac eleni eto cawsom oedfa Nadolig arbennig o dan eu harweiniad.

Cawsom gyfle i weld DVD eithriadol o afaelgar yn ein dwyn ni wyneb yn wyneb â gwir ystyr y Nadolig. Yn dilyn darlleniadau o'r Gair a gweddiâu rhannodd un o'r myfyrwyr ei thystiolaeth personol â ni.

Rhannwyd neges o'r Gair gan y Gweinidog yn seiliedig ar y geiriau, "Ond mae Duw mor anhygoel o drugarog! Mae wedi'n caru ni gymaint! Mae wedi rhoi bywyd i ni gyda'r Meseia – ie, ni oedd yn farw'n ysbrydol am ein bod wedi gwrthryfela yn ei erbyn" (Effesiaid 2:4,5).

Bu'r oedfa hon yn foddion gras i ffyddloniaid eglwys Seion ac i bawb oedd yn bresennol. Yn dilyn yr oedfa cawsom fwynhau swper blasus yng nghwmni ein gilydd wedi ei baratoi gan ferched Seion.

Oedfa Deuluol Gŵyl Ddewi



Ar fore Sul, 25 Chwefror, 2018 ar y thema “Goleuni”, cafwyd cyfraniadau cyfoethog trwy gân a cherddoriaeth, deialog a darlenniadau gan y plant, yr ieuencid a rhai o rieni'r Ysgol Sul. Pwysleisiodd y Gweinidog yn ei neges fod lesu Grist fel kannwyll yn goleuo, yn un i ni i'w ddilyn ac wrth i ni ddod ato mewn ffydd mae'n rhoi ei oleuni i ni. Dal goleuni lesu Grist a wnaeth Dewi Sant – dod â neges am gariad Duw i'r Cymry ofnus ac ofergoelus. Yr un yw'n galwad ni ac mae'n rhaid i ni ddod i'r man lle dywedwn yn wylaidd ac yn ostyngedig gyda hyder ffydd,

*Fy ngweddi fo am gael
yr lesu'n arglwydd im,
ac ef yn bopeth mwy
a mi fy hun yn ddim,
yn ddim ond llusern frau
i ddal ei olau ef...* (T. Eirug Davies)

Tynnodd y Gweinidog ein sylw at y daflen arbennig sydd wedi ei pharatoi gan yr elusen Gristnogol “Hope” ar gyfer Gŵyl Ddewi gan ein gwahodd i rannu copiâu â'n ffrindiau a'n cymdogion.

Yn dilyn yr oedfa daethom at ein gilydd i fwynhau paned a danteithion yn y festri gan dderbyn rhoddion i Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - Elusen ein Hapêl Gŵyl Ddewi. Derbyniwyd £367 a diolchwn am bob cyfraniad hael. Roedd hi'n hyfryd croesawu Nel, ei mam Manon a lanto ei brawd i'r oedfa. Deuddydd ar ôl y Nadolig cafodd Nel, sy'n dair oed, ei chludo ar frys yn yr Ambiwlans Awyr i Ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd. Mae hi bellach llawer iawn yn well. Mae Nel yn wyres i Emyr a Dulcie James, yn nith i Lowri Steffan ac yn gyfnither i Bryn a Dafydd. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo i drefnu ein Dathliad Gŵyl Ddewi.

Cyflwyno Rhodd i Gartref Tregerddan

Ymunodd cwmni bychan o'r aelodau gyda'r Gweinidog i gynnal Oedfa Gymun yng Nghartref Tregerddan ar brynhawn Sul, 4 Chwefror, 2018. Cyflwynodd y Gweinidog rodd o £100 i'r Cartref ar ran Cymdeithas y Capel. Yn y llun gwelir Mrs Cassie Pugh, un a fu'n organydd ffyddlon yn ein plith, yn derbyn y rhodd.



Y Gymdeithas

Ar ddechrau gweithgareddau'r Gymdeithas am 2018, Glyn Lewis Jones oedd ein gŵr gwadd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddodd Glyn lawlyfr yn adrodd hanes yr achos yn Seion. Priodol oedd i ni felly ddisgwyl crynodeb o sut bwriodd Glyn ati i ysgrifennu'r gyfrol ond oherwydd yr anturiaethau mae'n profi ar ylliau, noson a naws wahanol a gafwyd. Atgoffodd Glyn ni o rai o gymeriadau'r dre, cyn-athrawon yr Ysgol Gymraeg a'r gyfundrefn filitaraidd Saesneg yn Ardwyn ar y pryd. Adroddodd ei hanes yn teithio i Lundain i hyfforddi i fod yn Llyfrgellydd a'r 'lodgings' ble roedd bwrdd arbennig wedi'i osod i'r Aelodau Seneddol fyddai'n aros yno'n achlysurol. Wedi hyfforddi, dychwelodd i Ddolgellau ac yna nôl i Aberystwyth ble bu'n Llyfrgellydd llwyddiannus am nifer o flynyddoedd. Wedi ymddeol mae Glyn wedi mwynhau ei amser yn gwylio bysiau a threnau neu yn mynd ar wahanol deithiau. O'r herwydd, mae ganddo stôr o hanesion difyr o'r troeon trwstan sydd wedi dod i'w ran ac mae wedi addo cawn glywed y fersiwn olygyddol o hyn rhyw ddiwrnod.

Ym mis Chwefror, Lowri Fron oedd ein gwstai a'i thestun oedd Radio Beca. Mewn sgwrs hynod ddiddorol a gogleisiol, aeth Lowri â ni yn ôl i ddyddiau'r 'stand' laeth a'r defnydd a wnaethpwyd neu a wneir o'r gwrthrych hwnnw - llwyfan i berfformiad neu i werthu nwyddau fferm? Bwrdd picnic? Lle i

chwarae? Rhywle i garu? Cafwyd trafodaeth ar gyfryngau y gellid eu defnyddio i hysbysebu (posteri, crysau-t, hysbysfyrddau) ac o hyn daeth tarddiad i'r syniad o ddarparu 'Radio Beca'. Nid radio gyffredin mo hon. Er fod swyddfa yn Theatr Felinfach, oherwydd technoleg fodern mae modd darlledu a chyhoeddi rhaglenni yn unrhyw le. Elusen yw Radio Beca sy'n darlledu dros y we i gymunedau yng Ngheredigion, Gaerfyrddin a Phenfro i uno a chryfhau'r cymunedau. Ar hyn o bryd ychydig iawn o raglenni a ddarperir, fel awgrymodd Lowri, a recordiadau o gyngherddau neu gymanfaoedd sydd ar gael yn bennaf, ond mae'r cyfrwng yn fodd i hysbysebu unrhyw ddigwyddiad creadigol. Sgwrs hynod ddiddorol a chafwyd trafodaeth helaeth ar y testun ymhell wedi'r baned!

I ddatlu Gŵyl Dewi fe gawn gyfle i ddod i adnabod ein cyd-aelodau'n well wrth i ni ateb y cwestiwn "Beth yw bod yn Gymro/ Cymraes?" Croeso cynnes i bawb.

Bore Coffi'r Gymdeithas

Os ydych yn fodlon helpu yn achlysurol i baratoi'r bore coffi misol ar gyfer y Gymdeithas, a fyddoch cystal â rhoi gwybod i Gwenda James (Ysgrifennydd) os gwelwch yn dda (gwenda_llan@yahoo.co.uk <mailto:gwenda_llan@yahoo.co.uk>)

I'ch Dyddiadur...

Dydd Mercher, 14 Mawrth

Cynhelir Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion yn Seion.

10.30 Cynhadledd ynghyd â chyfle i weld y DVD cyntaf o ail bennod "Y Ffordd" o dan y pennawd "Arwain yn yr Eglwys".

2.00 Trafodaeth ar arolwg diweddar a drefnwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg o Gyfundeb Ceredigion. Bydd cinio'n cael ei baratoi yn y festri rhwng y ddau gyfarfod.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd eisoes wedi gwirfoddoli i baratoi a gweini'r cinio. Mae angen mwy o gymorth a gofynnir yn garedig i bawb sy'n barod i gynorthwyo i gysylltu â Gwenda James. Diolch yn fawr iawn i Gwenda am wneud y trefniadau ar ein rhan.

Nos Iau Cablyd, 29 Mawrth

7:00 Oedfa Gymun Undebol yng Nghapel Sant Paul.

Dydd Gwener y Groglith, 30 Mawrth

10:00 Oedfa Gymraeg Unedig yn Seion o dan arweiniad y Gweinidog.

Sul y Pasg, 1 Ebrill

10.00 Oedfa Deuluol i ddathlu'r Atgyfodiad yng nghwmni'r plant a'r ieuencid. Gweinyddir Ordinhad Swper yr Arglwydd.

6.00 Oedfa'r hwyr.

2-5 Ebrill Gŵyl Gristnogol Llanw yng Nghydwelli

Bore Mercher, 4 Ebrill

10.30 Bore Coffi Cymdeithas y Capel

Dydd Sul, 13 Mai

10.00 Oedfa Deuluol yng nghwmni plant ac ieuencid Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Morfa.

5:30 Cymanfa Ganu Eglwysi Gogledd Ceredigion. Arweinydd: Mr Arwyn Evans

6-10 Mehefin, 2018 - Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cynhelir y cyfarfodydd yn Aberaeron ar wahoddiad eglwysi Cyfundeb Ceredigion. (Yr ydym fel eglwys wedi cyfrannu £500 tuag at y costau). Bydd y Myfyrdodau Beiblaidd ar y dydd Mercher a'r dydd lau o dan arweiniad Gweinidog Seion.

Dydd Sadwrn, 9 Mehefin

2.00 Oedfa i Ddathlu glaniad y Cenhadon o Gymru ym Madagascar. Cyhoeddir yr union leoliad maes o law.

7.30 Cyngerdd y Dathlu.

Cais am Stiwardiaid Bydd angen tîm

o stiwardiaid i gynorthwyo trefniadau Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. Gwahoddir pawb sy'n barod i gynorthwyo fel stiwardiaid i roi gwybod i'r gweinidog. Bydd swyddogion yr Is-bwyllgor Stiwardio a Thrafnidiaeth yn cysylltu â hwy maes o law i rannu'r trefniadau ymarferol.

Cyflwyniad y Dathlu yn adrodd hanes y

Cenhadon. Mae cân wedi'i chomisiynu ar gyfer yr achlysur gan Marina James. Enw'r gân yw "Drws nesa dros y don". Eric Jones sydd wedi cyfansoddi'r gerddoriaeth a Ceri Wyn Jones sydd wedi ysgrifennu'r geiriau. Bwriedir ffurfio côr cymunedol mawr SATB i ganu'r gân yn y cyflwyniad a gynhelir yng Nghelaeron ger Neuaddlwyd nos Wener 8 Mehefin 2018. Bydd dau gôr lleol yn rhan o'r côr mawr, sef Bois y Gilfach a Chôr Cardi-gân, ond dymuniad yr Is-bwyllgor Gweithgareddau Dathlu a Chyflwyniad yw cael côr cymunedol estynedig a fydd yn cynnwys cantorion o bob cwr o Geredigion. Gwahoddir unrhyw gantorion 16 oed neu hŷn i ymuno â ni yn yr ymarfer cyntaf a gynhelir yng Nghapel Llwyneclyn ar nos Fercher, 14 Mawrth am 7.30pm. Os oes gan unrhyw un gwestiynau am y côr neu'r ymarferion, mae croeso i chi ffonio Heledd Williams ar 07989 904799 neu e-bostio heledd1@tiscali.co.uk.

Dydd Sul, 1 Gorffennaf

3.30 Oedfa yng Nghartref Tregerdan

Rihyrsals y Gymanfa Ganu

Ebrill 11 Bethel, Aberystwyth

Ebrill 18 Y Garn, Bow Street

Ebrill 25 Seion, Aberystwyth

Mai 1 Bethel, Talybont

Mai 9 Morfa, Aberystwyth